Archwilio Cymru
Audit Wales

# Addasiadau tai

Cyngor Bro Morgannwg

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o’r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i’r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle’r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae’r hawlfraint ynddo’n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda’r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o’n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 15 |
| Atodiadau | 16 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 16 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 18 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae'r Cyngor yn cynllunio, yn darparu ac yn monitro addasiadau tai i helpu pobl i aros yn eu cartrefi.

2 Yn 2025-26, fe symudodd y Cyngor ei dîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i mewn i'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i greu gwasanaeth Byw'n Annibynnol integredig. Mae gan y Cyngor bellach ddau wasanaeth sy'n darparu addasiadau tai a'r rheiny'n gweithredu mewn cyfarwyddiaethau gwahanol:

- Mae'r tîm Byw'n Annibynnol yn darparu addasiadau i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, mewn tai sy'n cael eu rhentu'n breifat neu mewn tai sy'n cael eu rhentu gan gymdeithasau tai.
- Mae'r Tîm Addasiadau Tai Cyngor yn darparu addasiadau ar gyfer y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor (Cartrefi'r Fro).

3 Gan bod y Cyngor wedi cadw ei stoc dai, fe wnaethom fwrw golwg hefyd ar y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i denantiaid ei dai ac i berchen-feddianwyr preifat.

## Pam fod hyn yn bwysig

4 Mae addasiadau i gartrefi'n golygu newidiadau i gartref sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl symud o gwmpas neu gyflawni tasgau pob dydd. Gall addasiadau helpu i atal cwympiadau a derbyniadau i leoliadau gofal, gan arbed arian i bwrs y wlad. Mae enghreifftiau o addasiadau tai'n cynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod â mynediad gwastad neu sedd gawod; a

- lledu drysau fel bod lle i gadeiriau olwyn fynd drwyddynt.

5 Mae'r Cyngor yn asesu anghenion pobl i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael cymorth. Pan ydynt, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, megis addasiadau i gartrefi neu offer, i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros gartref.

6 Mae'n allweddol bod addasiadau'n cael eu darparu mor gyflym â phosibl i helpu pobl i barhau i fyw gartref yn ddiogel ac yn annibynnol. Gall oedi olygu nad yw pobl yn gallu cyflawni tasgau beunyddiol neu eu bod yn wynebu risg o gwympiadau a bod angen cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill.

7 Yn ein hadroddiad yn 2018 ar addasiadau tai, canfuom system orgymhleth ledled Cymru. Roedd hyn yn atgyfnerthu anghydraddoldeb, yn hytrach nag ymdrin ag anghydraddoldeb, o ran darparu addasiadau.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

8 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y galw ac mae ei ddull o ddarparu addasiadau i gartrefi'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi adnabod sut y bydd yn ateb galw cynyddol ac er ei fod wedi gwella amseroldeb, gall defnyddwyr y gwasanaeth ddal i aros am dros flwyddyn am eu haddasiad. Canfuom hefyd fod diffygion mewn cynllunio strategol a rheoli perfformiad yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y gwasanaeth ar y cyfan ac ar allu'r Cyngor i ddeall a yw'n dwyn gwerth am arian.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym yn cyflwyno tri argymhelliad i'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygu cynllun cyflawni integredig;
- cryfhau sut y mae'n casglu ac yn cofnodi gwybodaeth am berfformiad ei wasanaeth addasiadau tai ac yn adrodd ar yr wybodaeth honno; a
- datblygu ei ddull o asesu gwerth am arian.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Yn 2025, fe symudodd y Cyngor ei dîm grantiau addasiadau tai o'r gwasanaethau adfywio i mewn i dîm Byw'n Annibynnol yn y gwasanaethau cymdeithasol i wella'r cymorth ar gyfer trigolion. Mae'r tîm Byw'n Annibynnol newydd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol a swyddogion grantiau. Datblygwyd canllawiau gweithredol newydd i adlewyrchu'r newidiadau.

Yn 2025-26 fe wariodd y tîm Byw'n Annibynnol £1.21 miliwn yn gwella'r cymorth ar gyfer trigolion. Daeth hwn o £604,000 ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, £264,000 ar HWYLUSO a £275,000 o Grantiau Addasiadau Dewisol.

Yn 2025-26 fe wariodd y Tîm Addasiadau Tai Cyngor £480,000 ar addasiadau i dai Cyngor a ariannwyd yn bennaf trwy'r Cyfrif Refeniw Tai a'r rhaglen gyfalaf, gyda grantiau atodol gan Lywodraeth Cymru megis y Gronfa Tai â Gofal.

Gweler adran 2 yn yr atodiadau am y termau allweddol yn yr adroddiad hwn.

Mae Addasiadau Tai Cyngor yn cael eu hariannu'n bennaf trwy'r Cyfrif Refeniw Tai a'r rhaglen gyfalaf yn rôl y Cyngor fel landlord, tra bo'r gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn darparu addasiadau a ariennir â chyllid grant megis Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Fe gwblhaodd y Tîm Addasiadau Tai Cyngor 422 o addasiadau tai yn 2025-26 ac fe gwblhaodd y tîm Byw'n Annibynnol 317. Ar y cyfan mae hyn yn cyfateb i 0.2 o addasiadau tai am bob 1000 o bobl. Mae'r niferoedd yn cynnwys cymysgedd o addasiadau tai a ariannwyd â chyllid Tai â Gofal a HWYLUSO, 154 o addasiadau tai a ariannwyd â Grant Adfywio Tai, 78 o addasiadau a ariannwyd â Grant Cyfleusterau i'r Anabl a 949 o addasiadau bychain gan gynnwys gwaith Gofal a Thrwsio, megis rampiau a chanllawiau.

Dengys arolygon boddhad yn 2025 fod defnyddwyr gwasanaethau'n rhoi sgôr uchel i'w haddasiadau tai:

- Mae 96% o ddefnyddwyr gwasanaethau a gafodd grant cyfleusterau i'r anabl yn meddwl bod eu hansawdd bywyd wedi gwella;
- Mae 95% yn meddwl bod eu barn wedi cael ei chymryd i ystyriaeth;
- Mae 96% yn teimlo'n fwy diogel gartref;
- Mae 98% yn meddwl bod ansawdd y gwasanaeth ar y cyfan yn dda; ac
- Mae 98% o denantiaid y Cyngor yn fodlon ar eu haddasiadau tai.

# Ein canfyddiadau

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y galw ond nid yw wedi adnabod sut y bydd yn ateb galw cynyddol

10 Mae’n glir i’r Cyngor bod addasiadau’n ategu amcanion llesiant y Cyngor, yn enwedig amcan 4: Cefnogi ac amddiffyn y rhai y mae arnynt ein hangen. Mae gwasanaeth y Tîm Addasiadau Tai Cyngor a’r gwasanaeth Byw’n Annibynnol yn cael sylw yng Nghynlluniau Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai 2026-27 sy’n amlygu pwysigrwydd rhoi cymorth i fyw’n annibynnol.

11 Mae’r Cyngor yn cynnwys y gwasanaeth iechyd, defnyddwyr y gwasanaeth a phartneriaid ym maes tai wrth ddatblygu ei ddull o ddarparu addasiadau tai i adlewyrchu eu profiad proffesiynol a phersonol. Er enghraifft, fe wnaeth Therapyddion Galwedigaethol y GIG helpu i ddatblygu canllawiau gweithredol y tîm Byw’n Annibynnol.

12 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y galw am addasiadau tai, yn seiliedig ar amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys y galw o blith plant a phobl ifanc. Mae wedi adnabod bod galw’n cynyddu oherwydd newid demograffig a phoblogaeth sy’n heneiddio. Fodd bynnag, nid yw’n defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio sut y bydd yn ateb y galw yn y dyfodol ac yn lleihau amseroedd aros, a’r adnoddau y bydd eu hangen arno.

13 Er bod y tîm Byw’n Annibynnol a’r Tîm Addasiadau Tai Cyngor ill dau’n darparu addasiadau tai, maent yn gweithio’n gyfan gwbl ar wahân. Er enghraifft, maent yn cael eu tywys gan bolisïau gwahanol, nad ydynt wedi’u hintegreiddio’n dda â’i gilydd: y tîm Byw’n Annibynnol gan y Polisi Byw’n Annibynnol 2023-26 a’r Tîm Addasiadau Tai Cyngor gan y Strategaeth Dai 2021-26. Mae gwasanaethau a pholisïau darniog yn golygu y gall defnyddwyr y gwasanaethau gael lefelau gwahanol o wasanaeth. Mae hefyd yn ei gwneud hi’n anos i’r Cyngor werthuso a yw’n cyflawni ei amcanion strategol a’i ddeilliannau bwriadedig.

14 Mae'r tîm Byw'n Annibynnol a'r Tîm Addasiadau Tai Cyngor ill dau'n defnyddio systemau TGCh a thaenlenni gwahanol, nad ydynt yn ei gwneud yn bosibl creu cysylltiadau rhwng setiau data. Mae swyddogion grantiau'n defnyddio system hollol wahanol. O ganlyniad, ceir risg nad yw prosesau'r Cyngor mor effeithlon ag y gallent fod.

15 Nid oes gan y naill wasanaeth na'r llall gynllun cyflawni sy'n nodi sut y bydd yn ymateb i alw uwch. Mae'r ddau dîm yn adolygu eu hadnoddau'n flynyddol fel rhan o gynllunio'r gwasanaeth, ond maent yn gwneud hyn ar wahân. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli i'r Cyngor wneud y gorau o adnoddau cyfunol y ddau dîm i ateb y galw a lleihau amseroedd aros.

## Mae addasiadau'n cael eu darparu mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae graddfeydd amser yn gwella, ond mae amseroedd aros cyfartalog yn dal i fod yn wendid arwyddocaol i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael Grant Cyfleusterau i'r Anabl

16 Mae gan y Cyngor wybodaeth eglur a hygyrch am addasiadau tai ar ei wefan ar gyfer tenantiaid a pherchen-feddianwyr. Mae hyn yn cynnwys cymhwystra, grantiau a chymorth ariannol sydd ar gael, gweithdrefnau ymgeisio, a sut y gwneir gwaith addasu. Ceir mynediad at wasanaethau dros y ffôn, trwy'r e-bost, ar-lein a thrwy waith papur hawdd i'w ddarllen. Mae hyn yn helpu ymgeiswyr i ddeall y broses ar bob cam a dod o hyd i'r cymorth iawn ar gyfer eu hanghenion.

17 Mae'r Cyngor yn dod i ddeall anghenion defnyddwyr trwy broses asesu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn digwydd yn bennaf trwy ymweliadau Therapyddion Galwedigaethol, sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion. Nod craidd yr ymweliadau hyn yw deall sut y mae cyflwr meddygol neu anabledd person yn effeithio ar eu gallu i fyw'n annibynnol. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i ddeall a diwallu anghenion yr ymgeiswyr yn well. Canfu arolwg boddhad y Cyngor fod 95% o ddefnyddwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth.


18 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu addasiadau tai. Mae'n ystyried mewnbwn a chyngor gan Therapyddion Galwedigaethol y GIG a thimau rhyddhau o'r ysbyty, ac mae'r tîm Byw'n Annibynnol yn lletya Therapydd Galwedigaethol sydd wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r Cyngor hefyd yn rhannu Storfa Offer ar y Cyd gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

19 Mae gan y Cyngor weithdrefnau eglur i gynorthwyo swyddogion gyda gwaith beunyddiol i redeg gwasanaethau addasiadau tai ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys mapiau proses, a chanllawiau ar gyfer atgyfeiriadau, rheoli achosion a rheoli oedi.

**Amseroldeb**

20 Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1**, mae'r Cyngor wedi lleihau'r amser a gymer ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i 489 o ddiwrnodau yn 2025-26 o'i gymharu â 511 o ddiwrnodau yn 2024-25. Mae'r galw sydyn yn y galw am addasiadau tai yn 2023-24 i'w briodoli'n rhannol i gael gwared ar y prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig gan ddefnyddio Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Fodd bynnag, mae amseroedd aros ar gyfartaledd yn dal i fod yn llawer mwy na blwyddyn. Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei darged o 285 o ddiwrnodau ar gyfer darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl.


**Arddangosyn 1: amseroedd aros ar gyfartaledd ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan y Tîm Byw'n Annibynnol mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Data'r Cyngor

21 Fel a ddangosir yn arddangosyn 2, mae amseroedd aros ar gyfartaledd ar gyfer tenantiaid tai cyngor yn gwella. Ni chyflawnwyd unrhyw addasiadau mawr yn 2024-25 na 2025-26. Fe gyrhaeddodd y Cyngor ei dargedau ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr yn y tair blynedd ddiwethaf.

**Arddangosyn 2: amseroedd aros ar gyfartaledd yng Nghartrefi'r Fro gan y Tîm Addasiadau Tai Cyngor mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Data'r Cyngor

22 Mae gorfod aros am amser hir cyn cael addasiadau tai'n gallu cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant rhywun gan roi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill o bosibl.

23 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio ateb galw uwch a lleihau amseroedd aros:

- Mae wedi cynyddu nifer y contractwyr adeiladu o bedwar i chwech i ddarparu addasiadau tai.
- Mae ganddo hefyd gytundeb fframwaith ar wahân gyda Gofal a Thrwsio[1] i ddarparu addasiadau ar raddfa fach.
- Mae'r Tîm Addasiadau Tai Cyngor yn defnyddio Sefydliad Llafur Uniongyrchol (DLO) y Cyngor ac mae hwn bellach yn gyflawn.

[1] Sefydliad elusennol y mae ei waith wedi'i neilltuo i helpu pobl fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch yw Care & Repair Cymru.

- Mae'n hyfforddi aseswyr dibynadwy[2] i ragnodi offer a mân addasiadau i leihau llwythi gwaith Therapyddion Galwedigaethol gan eu galluogi i ganolbwyntio ar atgyfeiriadau mwy cymhleth.
- Mae'n defnyddio grant addasiadau dewisol i ddarparu cyllid ychwanegol pan fo costau'n uwch na'r terfyn ar gyfer grant gorfodol, gan helpu trigolion i ariannu addasiadau sy'n eu galluogi i fyw gartref am yn hwy.

24 Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu hyn yn gwneud newid sylweddol i leihau'r amser a gymer i'r tîm Byw'n Annibynnol ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl eto.

## Mae'r Cyngor yn monitro data allweddol yn rheolaidd i ddeall perfformiad, ond nid yw effaith a gwerth am arian yn cael eu goruchwylio na'u deall rhyw lawer

25 Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro costau, gwariant, ansawdd, amseroedd aros a chanran y bobl sy'n fodlon ar yr addasiadau. Mae swyddogion grantiau'n gwirio'r holl addasiadau a gwblhawyd i asesu a ydynt yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Mae Therapydd Galwedigaethol yn gwirio'r addasiadau mwy cymhleth.

26 Mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i geisio adborth defnyddiwr y gwasanaeth pan fo'r addasiad wedi cael ei gwblhau. Mae lefelau boddhad yn uchel ac mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau mewn ymateb i adborth. Er enghraifft, mae wedi gwella cyfathrebu ar ddechrau'r broses, wedi gwella glendid contractwyr ac mae'n cynnal arolygon dros y ffôn yn hytrach nag anfon arolygon papur.

27 Fodd bynnag, canfuom feysydd ar gyfer gwella o ran sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei berfformiad wrth ddarparu addasiadau tai:

---

[2] Rhywun sy'n gweithio ar ran nifer o sefydliadau a chyda'u caniatâd i gynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yw Asesydd Dibynadwy.

- Nid yw wedi nodi camau gweithredu mewn cynllun cyflawni i wella amseroldeb nac i werthuso a yw ei gamau gweithredu'n gwneud gwahaniaeth (gweler paragraff 14).

- Nid yw'r targed a bennwyd gan y tîm Byw'n Annibynnol i ddarparu addasiadau tai mewn 285 o ddiwrnodau wedi cael ei gyrraedd dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â thrylwyredd y broses pennu targedau.

- Mae'r tîm Byw'n Annibynnol a'r Tîm Addasiadau Tai Cyngor yn monitro perfformiad ac yn adrodd arno ar wahân i'w gilydd a hynny wrth ddau bwyllgor gwahanol (y Pwyllgor Byw'n Dda a'r Pwyllgor Lle). Mae hyn yn rhwystr i oruchwyliaeth a her ac nid yw'n helpu'r Cyngor i werthuso ei berfformiad ar y cyfan.

- Mae'n glir i swyddogion ac aelodau y gall addasiadau tai atal cwympiadau a derbyniadau i leoliadau gofal mwy costus, gan felly arbed arian i bwrs y wlad. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi dadansoddi ac asesu hyn a nodi sut y bydd yn gwerthuso a yw'r addasiadau'n rhoi gwerth am arian.

28 Nid yw'r Cyngor yn asesu a yw'r addasiad wedi helpu i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth ar ôl iddynt ddefnyddio'r offer am nifer o fisoedd. Golyga hyn efallai nad yw'r Cyngor yn deall yn llawn a wnaeth yr addasiad gyflawni'r deilliannau bwriadedig a dwyn gwerth am arian.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun cyflawni integredig sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn lleihau amseroedd aros ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn ymdrin â'r galw yn y dyfodol, yn cyflawni amcanion llesiant, ac yn nodi'r adnoddau y mae eu hangen i wneud hyn **(paragraffau 12 a 15)**.

**A2** Dylai'r Cyngor gryfhau'r modd y mae'n rheoli perfformiad ei wasanaethau addasiadau tai. Dylai hyn gynnwys cryfhau'r modd y mae'n pennu targedau a gwerthuso sut y mae'r gwasanaethau'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant **(paragraff 29)**.

**A3** Dylai'r Cyngor benderfynu sut y bydd yn asesu a yw ei addasiadau tai'n dwyn gwerth am arian. Dylai hyn gynnwys deall a wnaeth yr addasiad gyflawni'r deilliannau bwriadedig. Byddai hefyd yn helpu'r Cyngor i ddeall a dangos effaith ataliol y gwasanaeth **(paragraff 29)**.

# Atodiadau

## 1 Ynglŷn â'n gwaith

### Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad ystyried a yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer addasiadau tai'n cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i aros gartref. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dull y Cyngor, y modd y mae'n darparu addasiadau tai a'i drefniadau monitro.

Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys cyfweliadau gyda rhanddeiliaid eraill sy'n rhan o ddarparu addasiadau tai. Ni wnaethom gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a gawsant ychwaith.

Fe wnaethom y gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn ym mis Ebrill 2026.

### Cwestiynau

Fe waeth yr archwiliad ddefnyddio'r cwestiynau lefel uchel canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull gwybodus ac eglur o ddarparu addasiadau tai sy'n cynorthwyo pobl i aros gartref?
- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddull o ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro'r cynnydd a'r effaith wrth ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?

## Meini Prawf

Fe wnaethom ystyried yr adroddiad gan Archwilio Cymru yn 2018 ar Addasiadau Tai i ddatblygu'r meini prawf archwilio. Fe gawsom drafodaethau gyda chynghorau hefyd i gael rhagor o ddealltwriaeth am addasiadau tai.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau a data a oedd yn ymwneud â'r broses addasiadau tai. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion ac aelodau etholedig allweddol.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Addasiadau** | Caiff addasiadau eu categoreiddio’n fân gymhorthion fel canllawiau a thapiau â liferi, addasiadau canolig fel cawodydd â mynediad gwastad, lifftiau grisiau, rampiau, a lledu drysau, neu addasiadau mawr fel estyniadau i adeiladau. Mae gwasanaethau arbenigol fel Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn darparu ymateb cyflym ar gyfer gwaith llai. |
| **Cynllun Gofal a Chymorth** | Dogfen wedi’i phersonoli a grëwyd gan y Cyngor dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a honno’n amlinellu sut y bydd anghenion asesedig unigolyn yn cael eu diwallu, yw cynllun gofal a chymorth. |
| **Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl** | Gweinyddir Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl gan adran dai eich cyngor lleol. Mae’r rhain yn seiliedig ar brawf modd ar gyfer addasiadau mawr oni bai eich bod yn ymgeisio ar ran plentyn dan 18. Gall y Grant ddarparu cyllid hyd at £36,000. |
| **HWYLUSO** | Mae mân addasiadau sy’n costio llai na £1,000 yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim a heb brawf modd fel arfer i bobl hŷn neu’r rhai y mae arnynt angen gwneud newidiadau i’w cartref oherwydd anabledd. Mae Llywodraeth Cymru’n darparu cyllid grant HWYLUSO i awdurdodau lleol fel adnodd hyblyg y gellir ei ddefnyddio i dalu am addasiadau bach a chanolig. |

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai** | Cyfrif ariannol wedi'i glustnodi'n llwyr a reolir gan awdurdodau lleol sydd wedi cadw eu stoc tai cyngor eu hunain yw'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae hyn yn sicrhau bod arian rhent tenantiaid yn cael ei ailfuddsoddi'n uniongyrchol i gynnal a chadw, rheoli a datblygu tai cyhoeddus. |
| **Asesiad o anghenion** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod gan unrhyw un y gall fod arnynt angen gofal neu gymorth hawl i asesiad o'u hanghenion. Mae'r broses hon wedi'i bwriadu i adnabod yr hyn sydd o bwys i chi a pha help all fod ei angen arnoch i gynnal eich annibyniaeth a'ch llesiant. |
| **Grant Addasiadau Dewisol** | Grant anorfodol a gyllidir gan y cyngor sy'n rhoi cymorth ariannol ychwanegol i helpu trigolion anabl i addasu eu cartrefi y tu hwnt i'r hyn a gwmpesir gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol yw grant addasiadau dewisol yng Nghymru. [1, 2] |
| **Y Gronfa Tai â Gofal** | Rhaglen cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i bwriadu i adeiladu, addasu ac uwchraddio llety fel bod pobl hŷn ac unigolion ag anghenion o ran gofal a chymorth yn gallu byw'n annibynnol yn eu cymunedau yw'r Gronfa Tai â Gofal. |
| **Storfa Offer ar y Cyd** | Mae Cydwasanaeth Offer Caerdydd a'r Fro'n darparu offer meddygol a chynnyrch ataliaeth i drigolion trwy bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a'r GIG. [1] Gweler y Storfa Offer ar y Cyd |

| | |
|---|---|
| **Gwerth am Arian** | Mae a wnelo gwerth am arian â pha un a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r deilliannau bwriadedig am y pris gorau. Mae gan gynghorau ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gwerth am arian. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i adolygu i ba raddau y maent yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.<br>• Darbodaeth – Cael y fargen iawn – sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, i helpu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig, am y gost isaf posibl.<br>• Effeithlonrwydd – Gwneud pethau'n iawn – gwneud y gorau o'r mewnbynnau i gynhyrchu allbynnau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig.<br>• Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn – cyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy. |

# 3 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.